**LC232**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001

**Y Cefndir**

Mae’r Rheoliadau hyn yn estyn y gofyniad am addysg gyrfaoedd i ddisgyblion ysgol sydd dros yr oedran gorfodol ar gyfer ymadael â’r ysgol a myfyrwyr sy’n mynychu sefydliadau o fewn y sector addysg bellach.

Maent i gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn o dan y weithdren safonol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 2**

Gan fod rheoliad 2 yn cyflwyno geiriad sy’n cael ei amnewid yn dybiannol am adran 43(5), derbynnir bod y cyfeiriadau gender-penodol yn digwydd oherwydd yr awydd i gadw mor agos â phosibl at eiriad adran 43(5).

Mae drafftio Rheoliad 2 yn cyd-fynd â chyngor a roddwyd gan y Cwnsler Seneddol ar ôl i’r cyfreithiwr drafftio gyfeirio’r mater hwn at y Cwnsler Seneddol oherwydd ei effaith ar ddeddfwriaeth sylfaenol. Cyfeirir at adran 44 oherwydd y cyfeiriad at adran 43 yn adran 44(10)(a)(i).

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

1 Mai 2001